Gwirionedd

Darlleniad 1: Colosiaid 3: 1-17
Darlleniad 2: Ioan 18: 28-38

Ein Tad, clywsom gwestiwn Pontius Peilat, 'Beth yw gwirionedd?' Gwyddost fod llawer heddiw yn ein plith yn dal i ofyn yr un cwestiwn. Tybed beth oedd bwriad Peilat yn dweud y fath beth? Ai awgrymu yr oedd nad yw gwirionedd o unrhyw werth yn wyneb y dasg anodd o redeg y byd? Bod rhaid i'r gwirionedd a phobl fel Iesu fod yn 'hyblyg' a chael eu derbyn neu eu gwrthod fel mae'n gyfleus? Ai bod yn wawdlyd oedd ef?

Beth bynnag oedd ei bwrpas manwl, mae'n amlwg fod dy Eglwys wedi dysgu'n wahanol ar hyd yr oesau:

'Y mae'r glaswellt yn crino a'r blodeuyn yn gwywo (medd y proffwyd), ond y mae gair ein Duw ni yn sefyll hyd byth.'

Ac yn ogystal â'n hatgoffa mai glaswellt yw'r bobl, fe ddywed dy Feibl wrthym, 'Dy Air di yw'r gwirionedd.'

'Er mwyn hyn (meddai Iesu wrth Peilat) yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i'r byd, i dystiolaethu i'r gwirionedd. Y mae pawb sy'n perthyn i'r gwirionedd yn gwrando ar fy llais i.'

Wyt ti, ein Duw, yn ein gweld fel rhai sy'n perthyn i'r gwirionedd? Ydym ni heddiw yn gwrando ar lais dy Grist?

Helpa ni wrth inni wynebu'r cwestiwn mawr hwn, oherwydd sefyll drosot ti a chyda thi yw ein dymuniad. Yn nyfnder ein calonnau yr ydym am fod ymhlith dy bobl di. Hwy sy'n deall cyfrinach y gwirionedd - mai dy gariad yw ei graidd a'i galon. Hwy sy'n gallu arfer a defnyddio'r gwirionedd i wneud bywyd yn werth ei fyw. Dy Eglwys di sy'n gofalu, heb amodau, am bobl a daear, natur ac ysbryd. Hithau sy'n gallu newid y byd - ei newid o'n ffordd ni i'th batrwm dithau. Dyma'r iachawdwriaeth sydd gan dy Grist i'w chynnig i'r holl bobl! Ti yw'r gwirionedd y bu ef yn dyst iddo.

Ynghanol sŵn y lleisiau sydd heddiw'n dweud wrthym nad oes Duw, dy fod ti'n ffrwyth dychymyg pobl ofnus (rhai sy'n ofni byw, medden nhw), helpa ni i'th gyhoeddi fel yr unig Dduw byw sy'n bod. Galluoga ni i'th sefydlu fel craidd bywyd ei hunan. Gad inni dy ddisgrifio fel yr un sy'n rhoi blas ar y broses fecanyddol o fodoli. Gweithreda trwom ni fel yr wyt yn gweithio trwy dy Grist.

Gwna ni'n gyfryngau i'th Faddeuant.
Gwna ni'n gyfryngau i'th Gariad.
Gwna ni'n gyfryngau i'th Obaith.
Gwna ni'n gyfryngau i'th Wirionedd.

Beth yw gwirionedd? Dy wirionedd sy'n rhoi inni lwybr i'w gerdded ar hyd ein byw; a'th wirionedd di yn Iesu Grist sy'n rhoi nerth i ddilyn y llwybr tra byddwn ni. Dy wirionedd di sy'n taflu goleuni arnom ni'n hunain ac ar y ffordd wrth inni ei thramwyo.

Y gwirionedd yw ein bod yn byw o'th herwydd - 'Ar wahân i mi, ni allwch chwi wneuthur dim.'

Cadw ni gyda thi, yn bobl y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd - er gogoniant i'th enw. Amen.

Roger Ellis Humphreys